Cyfarfod Rheolaidd Cyngor Tref Penrhyndeudraeth Ystafell Gefn Neuadd Goffa, Nos Iau, Chwefror 9fed, 2023 7.yh.
Ordinary Meeting Of Cyngor Tref Penrhyndeudraeth back room of the Memorial Hall Thursday 9 February 2023 7pm

**COFNODION/MINUTES**

1. Croesawyd pawb / *all were welcomed*
2. **Presennol/Present** : Meryl Roberts (Cadeirydd), Sian Llywelyn, Gwyn Vaughan Jones, Llinos Marples, Gruffydd Rhys Davies, Iolo Lewis, Gareth Jones.
3. **Ymddiheuriadau / *apologies*** : Victoria Burfiled, Nicola Griffiths.
4. **Datganiad buddiant / *declaration of interest*** : Meryl Roberts, Gwerin y Coed a Siân Llywelyn, Pwyllgor Apêl Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd (pt. 11 – cymorth ariannol / *grants*).

5. **Prosiect Tollty'r Cob / *Cob Tollhouse project:***
Daeth swyddogoin prosiect y tollty i siarad efo'r cyngor ynglŷn â'r hyn y gellid ei wneud i wella'r adeilad a cheisio cefnogaeth y cyngor i'r prosiect i'w wella. Cytunwyd y byddai'n bechod gadael i'r tollty fynd yn fwy â'i ben iddo nag y mae o'n barod. Dylid gwneud popeth i'w adfer a gwneud defnydd ohono.
*The Tollhouse Project members came to talk about the project and what can be do to restore the building, and asked the council for its support in the matter. It was agreed that it would be a great shame to let it go to more ruin than it already has. Everything should be done to restore it and make good use of it.*
**Pasiwyd** y dylid agor y sgwrs eto efo Cyngor Gwynedd ar y mater hwn. Bydd ceisiadau am gefnogaeth yn y papurau lleol a gwefannau cymdeithasol yn fuan. Nodwyd y bydd angen sicrhau bod y ddaear o dan y tollty yn saff yn ogystal gan fod newid hinsawdd yn medru effeithio ar lefel afon Glaslyn ac ansadio'r sylfaen.
*It was passed that a conversation should be started with Cyngor Gwynedd on the matter. Requests for support will soon be placed in local news papers and social media pages. It was noted that the ground underneath the tollhouse should be secured from floods before restoration on the tollhouse starts, seeing as Afon Glaslyn's levels can rise considerably due to climate change.*

6. **Cymeradwyo Cofnodion**
Pasiwyd cofndoion mis diwethaf / *last month's minutes were passed*

7. **Cyllid / *budget* :**
Cafwyd adroddiad gan y Clerc dros dro. Mae'r Cadeirydd wedi bod mewn cysylltiad efo CANON er mwyn cael yr argraffydd yn ôl gan y Clerc gan nad ydyw'n gweithio ar hyn o bryd. Mae hyn wedi cymryd amser a bydd y Cadeirydd yn cysylltu eto er mwyn brysio'r mater.
*The Locum Clerk reported on the budget. The Chairperson explained that the CANON printer still needs to be picked up from the Clerk's home seeing as he has been off on long term sickness.*

**8. <u>Cynllunio / planning</u>** : pasiwyd / *passed*

**9. <u>Materion Sefydlog / *fixed matters* :</u>**

(i) **Mynwent Minffordd *Cemetery*** : bu'r cadeirydd o gwmpas efo AW. Gwnaed nodyn o'r cerrig sydd angen delio efo nhw, gan fod nifer yn cael eu ansadio. Cynigwyd y bydd hysbysfwrdd yn mynd i fyny yn gofyn i bobl os ydyn nhw'n gyfrifol am y beddau i sicrhau bod y cerrig yn cael eu gwneud yn saff. Os na ddaw neb yno i ddelio efo nhw, y bydd y garreg wedyn yn cael ei rhoi yn fflat ar y bedd. Bydd yn rhaid newid yr awryddion sydd i fyny yno hefyd gan eu bod yn llwydo a bydd angen newid y manylion cyswllt. Bydd cais i ofalwyr beddi sicrhau fod y cerrig yn saff, ac eglurhad o'r hyn fydd yn digwydd os nad yw hynny'n bosib – sef bydd y cyngor yn ail osod y cerrig peryglus a'u rhoi'n wastad ar y beddau.

*The chairperson went round the site with AW. It was noted how many tombstones are lobsided and need to be dealt with before they become dangerous. If no-one is available to take care of the gravestones then the council will reset the stones flat on the graves, rather than allow them to stay upwards. New signs will be put up with new contact details and a request for grave keepers to ensure the safety of the tombstones.*

(ii) **Neuadd Drefol** : Bydd angen rhoi hys-bys allan ar gyfer paentio'r ffenestri a'r drysau. Bydd yr hys-bys yn mynd i fyny ar y wefan, hysbysfwrdd a Facebook. Bydd angen cael tri phris.

*An advertisment will be going out for quotes to paint the windows and the doors on the website, advertisment board and facebook. Three prices are needed.*

(iii) **Parc y Mileniwm** :

- Diwrnod chwynu a chlirio Chwefror 21 (Dydd Mawrth Crempog). Bydd crempogau yn cael eu gweini ar y diwrnod hefyd. Croeso i'r holl gynghorywyr i ddod yno i helpu. / *Weed and overgrowth will be cleared on February 21. Pancakes will be served to all who volunteer to help.*
- Mae y gwrych sydd ger y ffesn yng ngwaelod Blaen Ddôl wedi cael ei dorri. / *the bush by the fence near Blaen Ddôl has been cut.*
- Penderfynwyd y bydd y goliau'n cael eu paentio'n felyn, */ the goals will be painted yellow .*
- Penderfynwyd cael 2 fin sbwriel coch am £220 yr un. Caead troelli heb oriad fydd y math. / *Two red litter bins will be placed at £220 each – a key-less twist lock system type.*
- Does neb wedi dod ymlaen efo prisiau am drwsio wal Pen y Bryn. / *no-one has come forward with prices for the wall in front of Pen y Bryn.*
- Mae'r Cadeirydd wedi gofyn i CG ddad-siltio rhan o'r ffos. Maent yn fodlon ond bydd raid i ninnau wneud hefyd ar ein hochr ni. Cytunwyd y dylid cysylltu efo GEWS i'w chlirio a gosod camera yno. / *the chairperson has asked Cyngor Gwynedd to de-cilt a part of the ditch. It was agreed that the council will contact GEWS to clear it and set a camera inside the culvert*

-

(iv) **Cae Cookes :** Mae Hochtief yn dal i fod yno ac yn defnyddio ychydig o'r cae hefyd, sy'n golygu bod £1500 yn ychwaneogl y mis . / *Hochtief are still renting and are now using a further part of the field which brings in an extra £1500 a month.*

(v) **Cae Chwarae Minffordd** : Mae'r car yn dal i fod yno. Bydd y Cadeirydd yn ffonio'r cyngor sir i ddelio efo fo. Tynnwyd sylw'r cynghorwyr at y cerrig coping o flaen safle hen doiledau Minffordd, sydd o bosib, angen eu sadio gan nad ydynt yn saff. / *The car is still parked there. The chairperson will contact Cyngor Gwynedd to deal with it. The council's attention was brought to the copping stones which run with the curb on the square, which could be unstable as the wood placed to keep them upright has now probably decomposed.*

(vi) **Maes y Parc** : gweler cofnodion cyfarfod yr ymddiriedolwyr 9/2/23 / *see the minutes of the trustees meeting 9/2/23*

(vii) **Ffyrdd a Parcio** : dim i'w adrodd. / *nothing to report*

**<u>10) Gohebiaeth</u>**

(i) Un Llais Cymru : Mae un aelod o'r cyhoedd sydd â chysylltiad efo un o'r cynghorwyr yn mynychu'r gynhadledd ac am adrodd yn ôl i ni. Byddwn yn gofyn i Catrin Roberts, cynghorydd Aberdyfi am adrodd yn ôl i ni ar benderfyniadau'r gynhadledd. / *One Voice Wales – One of our councillors is in contact with an attendee of the upcoing conference in Machynlleth and will ask them to report bck to us. We will also ask Catrin Roberts, Aberdyf councellor to report back to us on the decisions of the conference.*

<u>**11) Ceisiadau am gymorth ariannol** : cofier - dyddiad cau Ionawr 31, 2023</u>

(i) Pasiwyd bod y cyngor yn talu i Bwyllgor y Neuadd £30 yr wythnos am ddefnydd y clwb ieuenctid or Neuadd Goffa. Nid yw'r gost hon yn dod allan o'r grantiau.
*Is was passed that the council will pay Pwyllgor y Neuadd £30 weekly for the Youth Club's use of the facilities. This cost does not come out of the grants pot.*
(ii) £400 yr un i'r Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol. / *£400 each for the Eisteddfod yr Urdd and the National Eisteddfod.*
(iii) CPD Penrhyndeudraeth, Yr Wylan, Ysgol Cefn Coch, Gwerin y Coed : £340
Ysgol Ardudwy a Neuadd Goffa £170 yr un. / *The said establishments to receive* £340 *each*
(iv) Ysgol Ardudwy a Pwyllgor y Neuadd i dderbyn £140 yr un. / *Ysgol Ardudwy and Pwyllgor y Neuadd to receive £170 each*

12) <u>**Gwefan y Cyngor** :</u>

- Barry Marples wedi gweld gwefan Nantglyn sydd yn defnyddio templed Spanglefish, ac yn cytuno y byddai hynny yn syniad da. Mae Gareth Cadwallader yn barod i helpu hefyd pe

bai'r cyngor eui angen. Ebostiwyd Hefin, cynhaliwr cyfredol y wefan er mwyn gofyn am yr enw domain a faint mae'r cyngor yn ei dalu amdano. Dim ateb hyd yn hyn. Nododd y Clerc dros dro hefyd bod y wefan i'w weld fel pe bai'n torri bob yn hyn a hyn gan ei bod yn anwadal.

*- Barry Marples has seen Cyngor Nantglyn's website and agrees that building a website on a template by Spanglefish is a good idea. Gareth Cadwallader is also willing to help if and when needed. Hefin has been emailed for the public domain information. No answer so far. The Locum Clerk also mentioned that our website seems to brake down every now and again and doesn't work properly.*

13) **<u>Prisiau Torri Gwair Mynwent Minffordd:</u>**

- Un dyfynbris ddaeth i law – derbynwid a phasiwyd / *One quote has been presented- It was accepted and passed*

14) **<u>Polisi Salwch</u>** :

- derbyniwyd a phasiwyd / *accepted and passed.*

15) **<u>CCTV Cyngor Gwynedd:</u>**

- Costau Cyngor Tref Penrhyn tuag at CCTV, yn ôl y dyfynbris gan y Cyngor Gwynedd, ydy £45, 800 + VAT. Mae hyn yn ormod i'r Cyngor Tref. Penderfynwyd chwilio am gyllid gan wahanol ffynonellau yn gyntaf heb roi lle i hwn ar gyllideb flwyddyn nesaf. / *The cost of setting this up by Cyngor Gwynedd would be £45,800 + VAT. This is way too much for the council. It was decided that the council will approach other sources of grants etc before setting up next year's precept to pay for a CCTV system.*

16) **<u>Ymddiswyddiad Cynghorydd / Councillor resignation</u>**

- Derbyniwyd diweddariad gan y Clerc dros dro ynglŷn â rheolau ethol / cyfethol. / *The Locum Clerk reported on the rules of electing and co-opting.*

Meryl roberts 9.3.23
Cadeirydd/chair dyddiad/date